



ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU

# ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON

## AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2004

Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Adran 94(8) Deddf Llywodraeth Cymru 1998

**John Bourn** **Archwilydd Cyffredinol Cymru**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

**23 Gorffennaf 2004**

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn hollol annibynnol ar y Cynulliad Cenedlaethol. Mae'n ardystio cyfrifon y Cynulliad a'r cyrff cysylltiedig a noddir ganddo; ac mae ganddo awdurdod statudol i gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad ar ddarbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y Cynulliad a'r cyrff cysylltiedig a noddir ganddo o ran eu defnydd o adnoddau i gyflawni eu swyddogaethau.

Paratowyd yr adroddiad hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth am Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru, cysylltwch â:

Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru
3-4 Plas-y-Parc
Caerdydd
CF10 3DP
Ffôn 029 2067 8500

Ebost ian.summers@nao.gsi.gov.uk
gillian.body@nao.gsi.gov.uk
Gwefan http://www.agw.wales.gov.uk

Argraffwyd ar bapur Greencoat.
Cynhyrchir Greencoat gan ddefnyddio ffeibr wedi'i ailgylchu (80%) a mwydion TCF crai (20%) o goedwigoedd cynaliadwy.

Argraffwyd gan Mitre Press.

Cyf DG: 4174RE

# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| Rhagair gan Archwilydd Cyffredinol Cymru | 2 |
| Archwilydd Cyffredinol Cymru - Helpu Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i Wella | 4 |
| Cwmpas Eang ein gwaith: Archwilio proses y Cynulliad o weinyddu Amaethyddiaeth | 8 |
| Helpu GIG Cymru i reoli risgiau allweddol | 12 |
| Cefnogi Gwelliannau o ran llywodraethu a rheoli | 16 |
| Gwella dyfodol gwaith archwilio cyhoeddus yng Nghymru - creu Swyddfa Archwilio Cymru | 20 |
| Atodiad A: Cyfrifon 2003-04 a archwiliwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru | 22 |
| Atodiad B: Prif archwiliadau a gyflawnwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2004 | 23 |
| Cyfrifon Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2004 | 26 |



## GWELD EIN HADRODDIADAU

Gallwch weld ein holl adroddiadau ariannol a gwerth am arian ar wefannau Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r Cynulliad - **http://www.cymru.gov.uk** a **http://www.acc.cymru.gov.uk**

## RHAGAIR GAN
# ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU

Ers sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 1999 ac ers i mi gael fy mhenodi yn Archwilydd Cyffredinol cyntaf Cymru, bu'n fraint fawr i mi chwarae rhan wrth lywio gwasanaethau cymdeithasol Cymru er mwyn diwallu anghenion ei phobl yn well. Mae darparu gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd uchel tra'n sicrhau gwerth am arian a'r gallu i reoli arian yn dda yn her sy'n wynebu pob cenedl, ac mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i gyrff cyhoeddus cysylltiedig wedi wynebu digon o heriau o'r fath dros y flwyddyn ddiwethaf.

Fel archwilydd allanol y cynulliad, sy'n cael cymorth tîm medrus o bron 50 o aelodau o staff yn Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru, gwn ein bod wedi helpu swyddogion cyhoeddus i ateb yr her hon, o ganlyniad i'n gwaith. Gwelwyd gwelliannau gwirioneddol mewn gwasanaethau cyhoeddus a rheolaeth ariannol, a llywodraethu gwell yn ein cyrff cyhoeddus. Mae'r adroddiad hwn yn amlygu rhai o'n cyfraniadau niferus i welliannau o'r fath ym mywyd cyhoeddus Cymru yn ystod 2003-04.




Mae'r adroddiad hefyd yn dathlu ein llwyddiant parhaus mewn blwyddyn lle yr ydym wedi dechrau mynd i ddelio â goblygiadau Mesur Archwilio Cyhoeddus (Cymru) sydd gerbron y Senedd ar hyn o bryd. Yn ogystal â chyhoeddi 13 o adroddiadau mawr ac archwilio 32 o gyfrifon, bûm yn gweithio gyda chydweithwyr yn y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a'r Comisiwn Archwilio i wneud y gwaith paratoi angenrheidiol a phwysig cyn creu un corff archwilio unedig i Gymru. Disgwylir i Swyddfa Archwilio Cymru ddod i fodolaeth ar 1 Ebrill 2005 a bydd hyn yn newid hanesyddol ym maes archwilio yng Nghymru am ei fod yn cyfuno swyddogaethau Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru a'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru o dan nawdd yr Archwilydd Cyffredinol. Bydd y mesurau newydd yn ein galluogi i ddilyn arian o bwrs y wlad i boced y defnyddiwr er mwyn gweld a yw wedi'i wario'n gall ac yn briodol.

Erys llawer i'w wneud yn y flwyddyn i ddod er mwyn paratoi ar gyfer creu Swyddfa Archwilio Cymru, tra'n parhau i ddarparu gwasanaeth o'r radd flaenaf i'm cleientiaid. Edrychaf ymlaen at sefydlu sylfeini cadarn y bydd staff Swyddfa Archwilio Cymru yn gallu manteisio arnynt i barhau â'r gwaith pwysig hwn ar ran pobl Cymru.

**John Bourn**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**



**'MAE LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU WEDI CYRRAEDD POB UN O'I THARGEDAU DADNEILLTUO O RAN Y CRONFEYDD STRWYTHUROL EWROPEAIDD AR GYFER 2003. RWYF YN YMWYBODOL IAWN MAI'R CYMORTH SYLWEDDOL A OEDD AR GAEL GAN SWYDDFA ARCHWILIO GENEDLAETHOL CYMRU OEDD YN GYFRIFOL I RADDAU HELAETH AM EIN LLWYDDIANT.'**

**SYR JON SHORTRIDGE KCB - YSGRIFENNYDD PARHAOL, CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**



### SICRHAU'R INCWM MWYAF GAN Y CRONFEYDD STRWYTHUROL EWROPEAIDD

Yn ystod hydref 2003, ar gais swyddogion Llywodraeth y Cynulliad, cyflawnodd fy staff waith ardystio grantiau ychwanegol ar fyr rybudd ar sawl prosiect a ariannwyd gan Ewrop a oedd yn werth miliynau o bunnoedd. O ganlyniad i'r gwaith hwnnw cyflwynwyd y tystysgrifau archwilio angenrheidiol mewn pryd i Swyddfa Gyllid Ewropeaidd Cymru weithredu o fewn terfyn amser y Comisiwn, sef Rhagfyr 2003. Yn sgîl hyn, llwyddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru i osgoi achos posibl o ddadneilltuo cyllid gan y Comisiwn, a gyfrannodd yn ei dro at y ffaith bod Cymru yn gymwys i gael £65 miliwn ychwanegol o gronfeydd Ewropeaidd.

## ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU

# HELPU GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU I WELLA

Fel Archwilydd Cyffredinol Cymru, gyda chymorth staff y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yng Nghymru, darparaf farn annibynnol am wirionedd a thegwch cyfrifon Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i gyrff cysylltiedig. Mae'r gwaith hwn yn helpu i sicrhau'r cyhoedd bod arian trethdalwyr wedi'i wario'n briodol ac at y dibenion a fwriadwyd.

Yn hanfodol, mae fy ngwaith hefyd yn ystyried a yw arian cyhoeddus wedi'i wario'n gall gan y Cynulliad a'i gyrff cysylltiedig. Mae gan fy ngwaith gwerth am arian ddau ddiben - rhoi sicrwydd ynghylch y defnydd o arian cyhoeddus yng Nghymru, a helpu gwasanaethau cyhoeddus i wella.

Pob blwyddyn, mae Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru, ar fy rhan i, yn darparu cyfres o adroddiadau gwerth am arian, sy'n cwmpasu'r amrywiaeth llawn o wariant cyhoeddus gan y Cynulliad, GIG Cymru a Chyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad. Mae adroddiadau gwerth am arian yn ceisio nodi arbedion ariannol a ffyrdd y gallai gwasanaethau wella, gan wneud argymhellion y bwriedir iddynt arwain at newidiadau buddiol.

## Cyfrifon ariannol a archwiliwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae Atodiad A yn rhestru'r 32 o gyfrifon ariannol a archwiliwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

## Beth sy'n digwydd i adroddiadau gan Archwilydd Cyffredinol Cymru?

Caiff yr adroddiadau eu cyhoeddi a'u cyflwyno gerbron y Cynulliad, gan fod yn sail i sesiwn dystiolaeth Pwyllgor Archwilio'r Cynulliad fel arfer. Yn y sesiynau hyn, mae'r Swyddogion Cyfrifo yn rhoi tystiolaeth ar adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol. Wedyn mae'r Pwyllgor Archwilio yn cynhyrchu ei adroddiad ei hun, y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei ystyried cyn ymateb i bob argymhelliad yn gyhoeddus.



## Effaith

Ar ôl cyhoeddi fy adroddiadau, mae staff y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn monitro'r broses o weithredu argymhellion ac yn olrhain effaith ein gwaith. Ers i mi gael fy mhenodi bum mlynedd yn ôl, mae gwaith Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru wedi sicrhau arbedion ariannol o £11 miliwn, gydag arbedion posibl o dros £100 miliwn yn y dyfodol. Mae hyn mwy nag ugain gwaith cost yr astudiaethau gwerth am arian a gynhaliwyd. Yn ogystal, mae argymhellion ein hadroddiadau wedi helpu'r rhai sy'n gyfrifol am reoli gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru i wella'r broses o'u cyflwyno.

Drwy gydol yr adroddiad, rwyf yn amlygu rhai o effeithiau ein gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Llynedd, cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru naw archwiliad gwerth am arian a phedwar adroddiad archwilio ariannol. Mae un ar ddeg o archwiliadau gwerth am arian eraill ar y gweill, a bwriedir i chwech arall ddechrau yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys adrannau ar ein gwaith ym meysydd amaethyddiaeth ac iechyd, ynghyd â'r camau rydym wedi'u cymryd i helpu'r Cynulliad i wella'r broses o noddi cyrff cyhoeddus, megis ELWa. Mae'r adrannau hyn yn dangos cwmpas ein gwaith, pa mor eang yw ei effaith, a'r ffordd y mae staff Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn ceisio cydweithio â'n cleientiaid i sicrhau gwelliannau a newidiadau buddiol.

## Gohebiaeth a gafwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae llawer o bobl yn ysgrifennu at Archwilydd Cyffredinol Cymru ynghylch y ffordd y caiff arian cyhoeddus ei ddefnyddio yng Nghymru. Mae nifer y llythyrau wedi mwy na dyblu ers creu swydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn 1999. Daeth ychydig o dan hanner yr holl ohebiaeth a dderbyniwyd gan aelodau'r cyhoedd, a daeth y gweddill gan ASau neu Aelodau'r Cynulliad.

Mae fy staff yn ystyried yr holl ohebiaeth yn ofalus a, lle y caiff materion pwysig eu codi, gall y rhain arwain at adroddiadau, megis fy adroddiad i, a'r memorandwm dilynol, i Bwyllgor Archwilio'r Cynulliad ynghylch gwaredu Ysbyty Canolbarth Cymru.

## Datblygu ein staff


Mae gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol statws Buddsoddwyr mewn Pobl ac mae'n cymryd y broses o ddatblygu staff o ddifrif. Yn ystod y deuddeg mis diwethaf, mae dau aelod o staff y Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru - Joanne Peddle a Liz Hitch - wedi cwblhau eu hyfforddiant cyfrifyddiaeth, ac mae pedwar aelod arall o staff - Rosemarie Khan, Simon Howells, Bethan Jones a Gareth Watts - wedi gwneud cynnydd pellach tuag at eu cymwysterau cyfrifyddiaeth eu hunain. Llongyfarchiadau i bob un ohonynt!

**'MAE SWYDDFA ARCHWILIO GENEDLAETHOL CYMRU WEDI CHWARAE RHAN BWYSIG IAWN WRTH SICRHAU BOD DATGANOLI YN LLWYDDIANT. MAENT WEDI LLWYDDO I SICRHAU'R CYDBWYSEDD CYWIR RHWNG PROFFESIYNOLDEB AC AGOSATRWYDD, RHWNG MANWL GYWIRDEB A PHARODRWYDD I WRANDO, A SICRHAU'R CYDBWYSEDD CYWIR O FYNNU SAFONAU OCHR YN OCHR AG AWYDD I HELPU'R CYRFF Y MAENT YN CYDWEITHIO Â HWY I WNEUD Y GWAITH GORAU POSIBL. MAENT YN GWNEUD CYFRANIAD ENFAWR I FYWYD CYHOEDDUS YNG NGHYMRU'.**

**DAVID RICHARDS, PRIF SWYDDOG CYLLID CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**







'ROEDD HON YN ASTUDIAETH DDIDDOROL IAWN I FATER SY'N CAEL EFFAITH DDIFRIFOL AR FYWYDAU FFERMWYR YNG NGHYMRU; MAE'R CYNULLIAD WEDI NODI MAES LLE Y MAE PROBLEMAU YN DOD I'R AMLWG, A HELPODD EIN HARCHWILIAD I NODI GRADDAU'R PROBLEMAU. YSTYRIODD PWYLLGOR SWYDDFA ARCHWILIO'R CYNULLIAD EIN HADRODDIAD YN YSTOD MIS HYDREF 2003 A CHYFLWYNODD ARGYMHELLION AR GYFER NEWID, A DDERBYNIWYD GAN LYWODRAETH Y CYNULLIAD AC MAE BELLACH YN EU DATBLYGU GYDA'I PHARTNERIAID YN Y GWASANAETH MILFEDDYGOL GWLADOL A THU HWNT'.

ROB POWELL, PRIF ARCHWILYDD, TÎM ASTUDIO SWYDDFA ARCHWILIO GENEDLAETHOL

## CWMPAS EANG EIN GWAITH

# ARCHWILIO PROSES Y CYNULLIAD O WEINYDDU AMAETHYDDIAETH

Mae Cymru yn wlad lle y mae llawer o ardaloedd yn amaethyddol yn bennaf. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cyflwynais adroddiad am y tro cyntaf ar Is-adran Amaethyddiaeth y Cynulliad. Mae'r adran hon o'm hadroddiad yn amlygu effaith dau o'm hadroddiadau gwerth am arian ym maes amaethyddiaeth.

### Digolledu ffermwyr am dwbercwlosis buchol

Yn ystod 2002 dechreuodd swyddogion y Cynulliad bryderu ynghylch y gost gynyddol o ddigolledu ffermwyr am anifeiliaid a gafodd eu lladd oherwydd twbercwlosis buchol; roedd cost yr iawndal ar gyfartaledd, sy'n seiliedig ar werth yr anifail ar y farchnad, wedi cynyddu 82 y cant rhwng 1999 a 2002. Ystyriodd fy archwiliad y gydberthynas rhwng taliadau iawndal a gwerthoedd sylfaenol ar y farchnad, a'r dasg o reoli'r broses brisio. Dangosir canfyddiadau allweddol yr adroddiad yn y blwch isod.

### Digolledu ffermwyr am dwbercwlosis buchol yng Nghymru - canfyddiadau allweddol

- caiff twbercwlosis buchol effaith ddifrifol ar ffermydd, yn bennaf oherwydd bod y cyfyngiadau ar symud anifeiliaid wedi arwain at golledion ariannol dilynol i ffermwyr;
- yn 2002 roedd iawndal o leiaf 50 y cant yn uwch na'r prisiau sylfaenol ar y farchnad ar gyfer anifeiliaid masnachol ac anifeiliaid pedigrî. Amcangyfrifwn i'r Cynulliad dalu £2.6 miliwn yn fwy mewn taliadau iawndal yn 2002 nag y byddai wedi'i wneud pe bai prisiadau wedi bod yn gyson â'r gwerthoedd ar y farchnad;
- roedd taliadau iawndal yng Nghymru hefyd yn uwch nag yng Ngogledd Iwerddon a Dyfnaint, lle y mae achosion o twbercwlosis mewn gwartheg yn gyffredin hefyd; a
- cafwyd gwendidau sylweddol yn y system o brisio anifeiliaid yr oedd twbercwlosis buchol yn effeithio arnynt, a gafodd eu gwaethygu gan ddiffyg trefniadau monitro effeithiol o daliadau iawndal gan y Cynulliad.

'ROEDD HON YN ASTUDIAETH GYFFROUS I WEITHIO ARNI, AM FOD YN RHAID EI CHWBLHAU'N GYFLYM IAWN I YMDRIN Â MATER CYFOES A DADLEUOL IAWN. BU I NI GYDWEITHIO'N AGOS Â'R CYNULLIAD A CHYNRYCHIOLWYR FFERMWYR I NODI ACHOSION CRAIDD YR OEDI, AC RYDYM YN HYDERUS Y BYDD CANLYNIAD ADRODDIAD YR ARCHWILYDD CYFFREDINOL, AC ADRODDIAD PWYLLGOR ARCHWILIO'R CYNULLIAD, YN HELPU I SICRHAU NAD YW'R SEFYLLFA ANODD HON YN CODI ETO YNG NGHYMRU'

MANEL DENCKER, ARCHWILIWR, TÎM ASTUDIO SWYDDFA ARCHWILIO GENEDLAETHOL

## Taliadau hwyr i ffermwyr yng Nghymru

Yn 2003, cafwyd pryder eang ynghylch effaith oedi wrth wneud cymorthdaliadau amaethyddol blynyddol ar ffermwyr. Caiff y cymorthdaliadau hyn, sy'n werth dros £200 miliwn, eu gweinyddu gan y Cynulliad fel yr Asiant Dalu i'r Deyrnas Unedig. Penderfynais gynnal archwiliad manwl o'r oedi, ac ychwanegais hyn at fy rhaglen waith gwerth am arian wreiddiol. Canolbwyntiodd fy archwiliad yn bennaf ar y system gyfrifiaduron a ddefnyddir i wneud taliadau i ffermwyr, ac yn fy adroddiad, *Taliadau Hwyr i Ffermwyr yng Nghymru*, amlygais y rhesymau dros yr oedi, a'r effaith ar ffermwyr.

## Taliadau hwyr i ffermwyr yng Nghymru - canfyddiadau allweddol

- cafwyd oedi wrth wneud taliadau oherwydd problemau eang eu cwmpas o ran system technoleg gwybodaeth newydd a gynlluniwyd i awdurdodi taliadau;
- cyfrannodd ffactorau allanol, megis clwy'r traed a'r genau a dyfodiad deddfwriaeth gymhleth yr EU, at yr oedi;
- ni thalwyd bron £50 miliwn, neu 25 y cant, o arian y Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) pan ddylai fod wedi'i dalu yn 2002-03;
- ar gyfer cynlluniau'r Cynulliad ei hun, ni wnaed unrhyw daliadau am bedwar mis; yn ystod y cyfnod hwn, roedd bron 1,000 o hawliadau (chwarter o'r holl daliadau a dderbyniwyd yn y flwyddyn) yn ddyledus;
- er gwaethaf y problemau, dylai'r system technoleg gwybodaeth newydd wella'r gwasanaeth a ddarperir i ffermwyr Cymru; mae'r Cynulliad wedi dechrau'n fwy addawol ar gyfer y flwyddyn dalu newydd o ran gwneud taliadau i ffermwyr; a
- cymerodd y Cynulliad nifer o gamau i leihau'r effaith y byddai'r oedi yn ei chael ar ffermwyr, megis sefydlu canolfan alwadau i ddelio â galwadau gan ffermwyr, a datblygu proses hybrid i sicrhau y gellir gwneud taliadau.



**HELPU I WELLA GWAITH GLANHAU MEWN YSBYTAI**

Pan gyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad ei 'Safonau Glendid Cenedlaethol ar gyfer Ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru', cafodd copi o adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, 'Rheoli a Darparu Gwasanaethau Glanhau Ysbytai yng Nghymru', ei ddosbarthu gyda phob un o'r mil o gopïau o Safonau Glanhau Ysbytai, a ddosbarthwyd gan Lywodraeth y Cynulliad. Bydd yr adroddiad yn helpu'r rhai sy'n gyfrifol am lanhau ein hysbytai i weithredu a chyrraedd y Safonau Glendid Cenedlaethol.





# HELPU GIG CYMRU I REOLI RISGIAU ALLWEDDOL

**MAE GWAITH IECHYD YR ARCHWILYDD CYFFREDINOL A SWYDDFA ARCHWILIO GENEDLAETHOL CYMRU YN ATEGU AGENDA DDIWYGIO GIG CYMRU**

Bob blwyddyn mae'r Cynulliad yn gwario dros draean o'i gyllideb ar iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn uniongyrchol - sef dros £4 biliwn. Mae hwn yn gyfnod o newid sylweddol yn GIG Cymru - ym mis Ebrill 2003 cafwyd rhaglen ailstrwythuro fawr, ac ym mis Mehefin 2003 amlygodd Adolygiad Wanless o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru broblemau difrifol o ran cyfluniad presennol gwasanaethau iechyd yng Nghymru a'r newid sylweddol sydd ei angen i ailgydbwyso'r system iechyd a gofal cymdeithasol. Mae gwaith iechyd yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn ategu agenda ddiwygio GIG Cymru.

## Cyllidau GIG Cymru

Nododd fy adroddiad ar *Gyllidau GIG Cymru 2004* mai £37 miliwn oedd y diffyg yn GIG Cymru yn 2002-03 o'i gymharu â diffyg o £16 miliwn ar gyfer y flwyddyn flaenorol. Amlygodd yr adroddiad rai o'r pwysau ariannol sy'n wynebu GIG Cymru, megis cyflwyno'r contract newydd i feddygon ymgynghorol, ailstrwythuro'r dyraniadau cyllid cenedlaethol a'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd. Dangosodd yr adroddiad fod y gost o ddefnyddio nyrsys asiantaeth yn parhau i godi: yn 2002-2003 £18 miliwn oedd y gost, ac mae wedi codi'n raddol bob blwyddyn o £8 miliwn yn 1999-2000. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi lansio nifer o fentrau i leihau'r gwariant hwn.

Dangosodd yr adroddiad hefyd fod cynnydd wedi'i wneud o ran:

- **lleihau twyll:** cafwyd gostyngiad o £15 miliwn i £7 miliwn yn y swm a gaiff ei golli o ganlyniad i dwyll fferyllol yng Nghymru, tra bod twyll Cleifion a Chontractwyr Optegol wedi gostwng o £1.2 miliwn i £0.9 miliwn ar gyfer 2001-2002; ac
- y broses o **atgyfnerthu trefniadau rheolaeth ariannol** yng Nghronfa Risg Cymru, a helpodd i leihau gwariant ar hawliadau o £49 miliwn i £43 miliwn yn 2002-03. Yn ogystal, cafodd yr hawliadau hyn eu talu'n llawn o gyllideb flynyddol y Gronfa heb yr angen i godi premiymau ychwanegol, fel y digwyddodd yn 2001-2002.

## Rheoli absenoldeb oherwydd salwch gan Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru

Caiff absenoldeb staff oherwydd salwch effaith sylweddol ar y GIG. Mae'n costio arian, yn mynd ag amser ac yn effeithio ar ansawdd gofal i gleifion yn y pen draw. Rhoddodd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, *Rheoli absenoldeb oherwydd salwch gan Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru*, y meincnod cenedlaethol cyntaf o lefelau absenoldeb oherwydd salwch ledled y GIG yng Nghymru a nododd nifer o rwystrau rhag rheoli'r mater hwn yn effeithiol.

## Rheoli absenoldeb oherwydd salwch gan Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru - canfyddiadau allweddol

- cafodd chwech y cant o oriau wedi'u contractio staff Ymddiriedolaethau'r GIG ei golli ar gyfartaledd o ganlyniad i absenoldeb oherwydd salwch yn 2002-03, o gymharu â 4.7 y cant ar gyfartaledd a nodwyd gan Ymddiriedolaethau'r GIG yn Lloegr;
- roedd cyfanswm gwerth amser staff y GIG a gollwyd o ganlyniad i absenoldeb oherwydd salwch yn fwy na £66 miliwn yn 2002-03, ac roedd Ymddiriedolaethau yn gwario amcangyfrif o £14 miliwn y flwyddyn ar staff asiantaeth, staff cronfa a dirprwy aelodau o staff yn lle staff a oedd yn sâl;
- nid oedd fframwaith cyffredin ar gyfer mesur absenoldeb oherwydd salwch ledled y GIG yng Nghymru;
- nid oedd gan y rhan fwyaf o Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru unrhyw ddata cadarn ar achosion sylfaenol neu gostau absenoldeb oherwydd salwch;
- roedd rheolwyr a staff yn anwybyddu'r gweithdrefnau absenoldeb oherwydd salwch a ddatblygwyd gan Ymddiriedolaethau'r GIG yn aml; a
- gellid gwella'r ddarpariaeth gyffredinol o wasanaethau iechyd galwedigaethol ar gyfer staff Ymddiriedolaethau'r GIG.

Mae dwy astudiaeth gennyf ar y gweill ym maes iechyd a ddylai gael eu cyhoeddi ar ddiwedd 2004:

- bydd yr astudiaeth o amseroedd aros yn ystyried rhai o'r rhesymau sylfaenol dros amseroedd aros hir yng Nghymru, a pha mor effeithiol y mae'r Cynulliad wedi mynd i'r afael â'r mater pwysig hwn; a
- bydd astudiaeth yn archwilio trais ac ymosodiadau gan gleifion a pherthnasau yn erbyn staff y GIG yn cyflwyno adroddiad ar niferoedd yr achosion o drais yn erbyn staff wrth iddynt wneud eu gwaith bob dydd. Bydd yn mynd ymlaen i adolygu ym mha ffyrdd y mae Ymddiriedolaethau'r GIG yn ceisio lleihau'r risg o achosion o'r fath, a'r cymorth y maent yn ei roi i staff yr ymosodwyd arnynt. Mae'r gwaith maes ar gyfer yr astudiaeth hon wedi dechrau ac mae staff y Swyddfa Archwilio Genedlaethol wrthi'n casglu gwybodaeth gan bob un o Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru.

'MAE ADRODDIAD YR ARCHWILYDD CYFFREDINOL WEDI HELPU I GANOLBWYNTIO AR LEFELAU AC EFFAITH ABSENOLDEB OHERWYDD SALWCH LEDLED Y GIG YNG NGHYMRU, AC MAE WEDI NODI'R CAMAU Y MAE ANGEN EU CYMRYD ER MWYN GWELLA'R BROSES O REOLI ABSENOLDEB OHERWYDD SALWCH YN GLIR. MAE PWYLLGOR ARCHWILIO'R CYNULLIAD HEFYD WEDI DANGOS DIDDORDEB BRWD YM MAES SALWCH YN Y GIG, GAN GYNNAL DWY SESIWN DYSTIOLAETH I YSTYRIED Y MATER. CYNHALIWYD UN O'R CYFARFODYDD YN Y DRENEWYDD, SEF Y TRO CYNTAF I SESIWN Y PWYLLGOR ARCHWILIO GAEL EI CHYNNAL Y TU ALLAN I GAERDYDD.'

MATTHEW MORTLOCK, UWCH ARCHWILIWR, TÎM ASTUDIO SWYDDFA ARCHWILIO GENEDLAETHOL




Apprentice

# CEFNOGI GWELLIANNAU O RAN LLYWODRAETHU A RHEOLI

Sefydlwyd ELWa - y Cyngor Cenedlaethol dros Addysg a Hyfforddiant (y Cyngor Cenedlaethol) dair blynedd yn ôl gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, gan gyfuno swyddogaethau pedwar Cyngor Hyfforddiant a Menter Cymru a hen Gyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru. Gyda chyllideb flynyddol o dros £520 miliwn, dyma'r corff mwyaf o'r 14 o Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yng Nghymru.

Yn ystod y ddwy flynedd gyntaf ar ôl ei sefydlu, a thra'n mynd i'r afael ag agenda strategol uchelgeisiol, wynebodd y Cyngor Cenedlaethol anawsterau mawr i sefydlu fframweithiau rheoli cydlynol a chadarn oddi wrth y pum system a diwylliant gwahanol iawn yr oedd wedi'u hetifeddu.

Nododd fy archwiliadau ariannol a gwerth am arian yn y Cyngor Cenedlaethol yn ystod 2002 a 2003 rai gwendidau difrifol yn ei weithrediadau, ac rwyf wedi cynhyrchu tri adroddiad cyhoeddedig ar wahân - sy'n cynnwys amrywiaeth o argymhellion ar gyfer gwella - ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru, fel y dangosir isod.

Yn sgîl y ddau adroddiad cyntaf o'r adroddiadau hyn, bu'n rhaid i Brif Weithredwr a Swyddog Cyfrifo'r Cyngor Cenedlaethol ymddangos gerbron Pwyllgor Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Roedd adroddiadau dilynol y Pwyllgor ei hun yn cynnwys amrywiaeth o argymhellion manwl a ehangodd raglenni camau cywirol cadarn a helaeth y Cyngor Cenedlaethol ei hun. Derbyniwyd pob un o argymhellion y Cyngor gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac, yn eithriadol, ysgrifennodd y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus at Gadeiryddion pob Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad ym mis Ionawr 2004 i sicrhau bod gwersi'r cymhwysedd ehangach ar draws sector llywodraeth ganolog Cymru yn cael eu dwyn i sylw pob un o'r cyrff hyn. Cafodd eu Pwyllgorau Archwilio eu hannog yn gryf gan y Gweinidog i adolygu effeithiolrwydd eu gweithdrefnau llywodraethu a rheoli risgiau yng ngoleuni profiad y Cyngor Cenedlaethol.

Mae staff Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn cydweithio'n agos â rheolwyr y Cyngor Cenedlaethol, gan roi cyngor annibynnol ac adborth rheolaidd iddynt ar ganlyniadau gwaith archwilio parhaus. Maent hefyd yn mynychu pob cyfarfod Pwyllgor Archwilio'r Cyngor Cenedlaethol ei hun, maent wedi cyfrannu at y dasg o baratoi canllawiau ysgrifenedig diwygiedig ar gyfer staff y Cyngor Cenedlaethol ac maent wedi darparu enghreifftiau perthnasol o arferion gorau mewn cyrff archwiliedig eraill yng Nghymru.

Yn ogystal â chydweithio â'r Cyngor Cenedlaethol, mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol hefyd yn helpu i sicrhau gwelliannau mewn llywodraethu da ar draws pob Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad a gwella'r ffordd y gall swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru oruchwylio'r cyrff hyn y maent yn eu noddi a'u gwneud yn fwy effeithiol. Mewn ymateb i gyfres o argymhellion gan Bwyllgor Archwilio'r Cynulliad ym mis Rhagfyr 2003, mae Swyddfa Gydymffurfiaeth y Cynulliad wedi gweithio mewn partneriaeth agos â'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol i ddatblygu cyfres o gyrsiau hyfforddi ar gyfer swyddogion noddi a'u huwch swyddogion cyfatebol mewn Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad, a chafodd cynllun peilot o'r un cyntaf ei gynnal yn llwyddiannus ym mis Chwefror 2004. Mae cyfarwyddwyr cleientiaid y Swyddfa Archwilio Genedlaethol hefyd yn siarad yn rheolaidd mewn cyrsiau sefydlu ar gyfer Swyddogion Cyfrifo sydd newydd eu penodi ac aelodau'r Cyngor / Bwrdd mewn Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad.

| ADRODDIAD | PWNC | CYHOEDDWYD |
|---|---|---|
| Cyfrifon 2001-02 | Barn archwilio amodol oherwydd 13 o gontractau caffael afreolaidd yn gwneud cyfanswm o £2.2 miliwn | 14 Ionawr 2003 |
| Rheolaeth Ariannol o Berfformiad a Phrosiectau Arloesi a Datblygu | Rheolaeth annigonol o risgiau a gwerth gwael am arian gan reolaeth y Cyngor Cenedlaethol o amrywiaeth o brosiectau, gan gynnwys prosiect Caffi MP3 y Ganolfan Bop gwerth £4 miliwn; taliadau ymlaen llaw a wnaed i ddarparwyr hyfforddiant | 16 Medi 2003 |
| Cyfrifon 2002-03 | Barn archwilio glir, ond gwendidau parhaus mewn systemau ariannol a rheolaethau mewnol | 16 Ionawr 2004 |

## CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU - HELPU I RYDDHAU CRONFEYDD AT DDIBENION ERAILL

Nododd ein harchwiliad ariannol o gyfrifon Adran Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru fod nifer o hen brosiectau lle yr oedd cronfeydd wedi'u neilltuo iddynt o hyd. Awgrymodd ein llythyr rheoli a ddeilliodd o hyn y dylai Cyngor Celfyddydau Cymru gynnal adolygiad o'r ymrwymiadau hyn nas hawliwyd, ac yn sgîl hyn rhyddhawyd £400,000 i'w ddefnyddio ar gyfer prosiectau eraill.

# Cefnogi Gwelliannau: Rôl yr archwiliwr allanol

**Rydym yn rhoi gwybodaeth i'n cleientiaid ac yn eu haddysgu**

Mae staff y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn mynychu cyfarfodydd Pwyllgorau Archwilio clientiaid ac uwch dimau rheoli i esbonio rôl yr archwiliwr allanol ac i rannu enghreifftiau o arferion gorau o'n portffolio cleientiaid cyfan. Mae'r sesiynau hyn yn rhoi cyfleoedd i nodi a thrafod materion sy'n dod i'r amlwg sy'n peri pryder penodol o fewn pob corff ac i gyflwyno argymhellion adeiladol i reolwyr cleientiaid. Gallwn hefyd roi rhybudd cynnar o fentrau o fewn y sector cyhoeddus ehangach ar bynciau megis llywodraethu corfforaethol, rheoli risgiau a chaffael, er mwyn galluogi ein cleientiaid i gymryd camau cyflym a phriodol yn y meysydd pwysig hyn.

**Rydym yn darparu cyngor cadarn**

Yn ogystal â darparu tystiolaeth briodol i ategu ein barn, mae ein dull archwilio yn seiliedig ar risgiau hefyd yn nodi materion y gallwn gynnig cyngor adeiladol arnynt i gleientiaid. Gan ddefnyddio'r amrywiaeth eang o sgiliau a phrofiad staff y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, gallwn hefyd ymateb yn gadarnhaol i geisiadau am gymorth gan ein cleientiaid. Ymhlith y rhain, er enghraifft, mae:

- darparu cyngor ar fanyleb systemau cyfrifyddu newydd a'r broses o'u gweithredu;
- cymryd rhan mewn adolygiadau technegol o dan arweiniad cleientiaid a grwpiau cynghori; a
- siarad mewn seminarau, cynadleddau a digwyddiadau hyfforddi ar gyfer staff cleientiaid ac aelodau'r Bwrdd/Cyngor.

**Rydym yn cyflwyno adroddiadau ar ein canfyddiadau ac yn gwneud argymhellion ar gyfer gwella**

Yn ogystal â rhoi barn archwilio ar bob set o gyfrifon blynyddol, rydym yn cynhyrchu adroddiad ffurfiol i reolwyr ar ddiwedd pob archwiliad. Yn aml mae'r adroddiadau hyn yn rhoi sylwadau ar faterion megis:

- y broses o ddylunio a gweithredu systemau cyfrifyddu a rheolaeth fewnol a archwiliwyd yn ystod yr archwiliad, gan wneud awgrymiadau ar gyfer gwella a chan ddarparu cyngor adeiladol arall ar sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y broses o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus;
- unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio â'r gofynion rheoleidd-dra a phriodoldeb, rheolau Government Accounting a chanllawiau swyddogol eraill a roddwyd i Swyddogion Cyfrifo; ac
- unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio â'r gofynion a bennwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn y Datganiadau Rheoli a'r Memoranda Ariannol sy'n llywodraethu gweithrediadau pob Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad.

Cytunir ar ein canfyddiadau a'n hargymhellion gydag uwch reolwyr cleientiaid, cyn eu cyflwyno yng nghyfarfodydd eu Pwyllgorau Archwilio, ac rydym yn mynd ar drywydd y dasg o roi ein hargymhellion ar waith fel rhan o broses archwilio'r flwyddyn nesaf.

Rwyf yn falch bod fy staff yn gallu darparu cymorth mewn cymaint o ffyrdd i'r cyrff rwyf yn eu harchwilio. Mae'n bwysig, fel Archwilydd Cyffredinol Cymru, fy mod yn gallu sicrhau y caiff cyrff cyhoeddus eu dwyn i gyfrif - lle y bo angen - ond hefyd fy mod yn gallu eu cefnogi'n llwyr yn eu hymdrechion i wella'r broses o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus i bobl Cymru.




"....CYFLE UNIGRYW I GREU SEFYDLIAD NEWYDD A
MODERN A FYDD YN LLYWIO'R BROSES O WELLA
GWASANAETHAU CYHOEDDUS YNG NGHYMRU A'R
GWAITH A'U RHEOLI'N ARIANNOL."

## GWELLA DYFODOL GWAITH ARCHWILIO CYHOEDDUS YNG NGHYMRU

# CREU SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Yn ystod y deuddeg mis nesaf, mae gwaith archwilio cyhoeddus yng Nghymru yn debygol o newid yn sylweddol. Bydd Mesur Archwilio Cyhoeddus (Cymru), sydd gerbron y Senedd ar hyn o bryd, yn paratoi'r ffordd i uno staff y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru ar 1 Ebrill 2005 i greu "Swyddfa Archwilio Cymru". Bydd cylch gwaith y swyddfa honno, o dan arweiniad Archwilydd Cyffredinol Cymru, yn cwmpasu'r mwyafrif o'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

Dylai'r broses o greu un corff archwilio i Gymru gyflwyno nifer o fanteision gan gynnwys:

- **ymagwedd gyson tuag at archwilio** ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru;
- y gallu i **ddilyn arian cyhoeddus** drwy'r gadwyn ariannu i'r rhai sy'n derbyn arian yn y pen draw er mwyn sicrhau bod gwariant yn rheolaidd ac yn briodol ac yn ystyried yr angen i sicrhau gwerth am arian;
- y gallu i gynhyrchu **adroddiadau trawsbynciol** ar y broses o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus gan gwmpasu'r sector cyhoeddus cyfan yng Nghymru. Er enghraifft, mae gan Lywodraeth y Cynulliad, llywodraeth leol a rhai Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad oll swyddogaethau datblygu economaidd. Byddai un corff archwilio yn gallu adolygu pa mor effeithiol y mae'r cyrff hyn yn cydweithio i gefnogi economi Cymru, creu swyddi ac ati; ac
- **ad-drefnu** yn y tymor hwy.

## Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru

Er mwyn datblygu methodoleg gyson a fyddai'n berthnasol i'r sector cyhoeddus cyfan yng Nghymru, bwriadaf gynhyrchu Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu i'w ddefnyddio gan staff Swyddfa Archwilio Cymru a chwmnïau'r sector preifat ac eraill sy'n cyflawni gwaith o dan gontract. Dogfen lefel uchel fydd y Cod a fydd yn nodi'r prif egwyddorion ac ystyriaethau gan gyfeirio at arferion gorau megis Safonau'r Bwrdd Ymarfer Archwilio. Bydd y Cod yn gymwys o flwyddyn cyfrif 2005-06 ac, er mwyn cynorthwyo'r broses o'i ddatblygu, cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru, y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a'r Comisiwn Archwilio ddogfen ymgynghorol ar y cyd ar gyfer rhanddeiliaid, a bydd yn ymgynghori ymhellach ar destun y Cod.

Mae'r dasg o greu Swyddfa Archwilio Cymru erbyn 1 Ebrill 2005 yn her fawr i staff y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a'r Comisiwn Archwilio, a fydd yn gorfod ei sefydlu tra'n cyflawni eu rhaglenni gwaith heriol parhaus. Mae'r ddau sefydliad yn dibynnu'n fawr ar eu priod bencadlysoedd yn Llundain ar hyn o bryd ar gyfer seilwaith canolog megis cyllid, adnoddau dynol, a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Felly bydd yn rhaid i'r sefydliad newydd gaffael ei wasanaethau cymorth ei hun a sicrhau eu bod ar waith erbyn 1 Ebrill 2005. Yn ogystal, bydd angen trin y broses o drosglwyddo staff o'u cyflogwyr presennol i Swyddfa Archwilio Cymru yn ofalus ac yn unol â'r gofynion statudol a'r arferion gorau yn y sector cyhoeddus.

Er mwyn helpu gyda'r dasg aruthrol hon, mae'r Comisiwn Archwilio a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar y cyd wedi cyflogi Rheolwr Prosiect i gydlynu meysydd amrywiol y gwaith ac i helpu i reoli'r risgiau busnes craidd y bydd angen ymdrin â hwy. Yn ogystal, rwyf wedi penodi Dr Clive Grace, Cyfarwyddwr Cyffredinol y Comisiwn Archwilio yng Nghymru, yn Ddirprwy i mi ac yn Ddarpar Brif Weithredwr Swyddfa Archwilio Cymru, i arwain y gwaith o greu Swyddfa Archwilio Cymru, ac i ddatblygu cynigion o ran ei threfniadaeth a staffio mewn trafodaeth ag uwch aelodau o staff y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a'r Comisiwn Archwilio.

Bydd y cyfnod i ddod yn her fawr i bawb dan sylw ond bydd y gwaith a wneir ar hyn o bryd yn rhoi cyfle unigryw i greu sefydliad newydd a modern a fydd yn llywio'r broses o wella gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru a'r gwaith o'u rheoli'n ariannol.

ATODIAD A

# CYFRIFON 2003-04 A ARCHWILIWYD GAN ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU

## Cyfrifon a baratowyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru

- cyfrif Adnoddau Craidd y Cynulliad;
- cyfrif Adnoddau Cyfunol y Cynulliad;
- cyfrif Llywodraeth Cymru Gyfan (cyfrif ymarfer);
- Cadw: Welsh Historic Monuments;
- Ardrethu annomestig Cymru;
- Cyfrif cryno Awdurdodau Iechyd (cyfrif terfynol);
- Cyfrif cryno Ymddiriedolaethau'r GIG;
- Cyfrif Cronfeydd Cryno a ddelir ar Ymddiriedolaeth;
- Swyddfa Gyllid Ewropeaidd Cymru; a
- Proffesiynau Iechyd Cymru.

## Cyfrifon a baratowyd gan gyrff eraill yn ôl pwnc

**Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig**

- Cyngor Cefn Gwlad Cymru;
- Comisiwn Coedwigaeth Cymru; a
- Menter Coedwigaeth Cymru.

**Datblygu Economaidd**

- Bwrdd Croeso Cymru; ac
- Awdurdod Datblygu Cymru.

**Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

- Cyngor Gofal Cymru; a
- Comisiynydd Gwasanaethau Iechyd Cymru.

**Llywodraeth Leol a'r Amgylchedd**

- Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru.

**Addysg a Dysgu Gydol Oes, Chwaraeon, Diwylliant a Threftadaeth**

- Cyngor Celfyddydau Cymru;
- Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant;
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru;
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru;
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru - Cyfrif Cynllun Pensiwn Staff;
- Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru;
- Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru;
- Cyngor Chwaraeon Cymru;
- Cyfrif Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru;
- Bwrdd yr Iaith Gymraeg;
- Estyn; a
- Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru.

**Eraill**

- Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru; a
- Comisiynydd Plant Cymru.

## ATODIAD B

# PRIF ARCHWILIADAU A GYFLAWNWYD GAN ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU YN YSTOD Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2004

| Adroddiadau gwerth am arian a gyhoeddwyd | Gwaith gwerth am arian ar y gweill | Gwaith gwerth am arian a ddylai ddechrau yn ddiweddarach yn y flwyddyn ariannol gyfredol | Adroddiadau archwilio ariannol a gyhoeddwyd |
|---|---|---|---|
| **Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** | | | |
| ■ Rheoli Absenoldeb oherwydd Salwch gan Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru;<br>■ Memorandwm gan Archwilydd Cyffredinol Cymru - Archwiliad pellach o'r materion a gododd yn sgîl gwaredu Ysbyty Canolbarth Cymru; a<br>■ Rheoli a Darparu Gwasanaethau Glanhau Ysbytai yng Nghymru. | ■ Amseroedd aros yn GIG Cymru;<br>■ Caffael Cyfleustodau'r GIG; a<br>■ Diogelu staff y GIG rhag trais. | ■ Gwastraff clinigol; a<br>■ Gofal dydd (astudiaeth ar y cyd â'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru). | ■ Cyllidau GIG Cymru 2004. |
| **Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio** | | | |
| ■ Adnewyddu Tai'r Sector Cyhoeddus yng Nghymru. | - | - | - |
| **Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth** | | | |
| ■ Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd - gwaith dilynol i adroddiad cynharach (a ddylai gael ei gyhoeddi ar 8 Gorffennaf 2004). | ■ Rheoli'r broses o wella'r Rhwydwaith Cefnffyrdd a Thraffyrdd; a<br>■ Cynnal a chadw Cefnffyrdd gan asiantau lleol. | - | - |

## ATODIAD B

# PRIF ARCHWILIADAU A GYFLAWNWYD GAN ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU YN YSTOD Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2004

| Adroddiadau gwerth am arian a gyhoeddwyd | Gwaith gwerth am arian ar y gweill | Gwaith gwerth am arian a ddylai ddechrau yn ddiweddarach yn y flwyddyn ariannol gyfredol | Adroddiadau archwilio ariannol a gyhoeddwyd |
|---|---|---|---|
| **Yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad** | | | |
| ■ Digolledu Ffermwyr am Dwbercwlosis Buchol yng Nghymru; a<br>■ Taliadau Hwyr i Ffermwyr yng Nghymru. | ■ Gwaith Asiantaeth yr Amgylchedd o reoleiddio'r broses o reoli gwastraff. | ■ Tir Gofal. | - |
| **Addysg a Dysgu Gydol Oes** | | | |
| ■ ELWa - Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant: Rheolaeth Ariannol o Brosiectau Partneriaeth a Phrosiectau Arloesi a Datblygu. | ■ Y defnydd effeithiol o grantiau ar gyfer addysg a hyfforddiant mewn swydd;<br>■ Rheoli absenoldeb staff oherwydd salwch yn y sector addysg bellach;<br>■ Caffael yn y sector addysg uwch; a<br>■ Rheoli ynni a dŵr yn y sector addysg uwch. | - | ■ Adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar Gyfrifon 2002-03 Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru; ac<br>■ Adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar Gyfrifon 2002-03 ELWa-Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant. |

| Adroddiadau gwerth am arian a gyhoeddwyd | Gwaith gwerth am arian ar y gweill | Gwaith gwerth am arian a ddylai ddechrau yn ddiweddarach yn y flwyddyn ariannol gyfredol | Adroddiadau archwilio ariannol a gyhoeddwyd |
|---|---|---|---|
| **Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon** | | | |
| ■ Rheoli'r Casgliadau yn Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru (cyhoeddwyd 22 Ebrill 2004). | ■ Middleton - y Gerddi Botaneg Cenedlaethol. | ■ Cyngor Celfyddydau Cymru - gwaith dilynol i adroddiad cynharach Archwilydd Cyffredinol Cymru. | - |
| **Gweinyddu'r Cynulliad/ Astudiaethau trawbynciol** | | | |
| - | - | ■ Merlin - contract y Cynulliad am wasanaethau TGCh; a<br>■ rheoli absenoldeb oherwydd salwch yn y Cynulliad. | ■ Adroddiad Cyffredinol ar waith archwilio ariannol Archwilydd Cyffredinol Cymru. |

# CYFRIFON ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2004

## Rhagair i'r cyfrifon

### Cyflwyniad

Sefydlwyd swydd Archwilydd Cyffredinol Cymru o dan Adran 90 Deddf Llywodraeth Cymru 1998 a daeth i fodolaeth ar 1 Mehefin 1999 pan benodwyd Syr John Bourn KCB fel yr Archwilydd Cyffredinol cyntaf.

Penodir Archwilydd Cyffredinol Cymru gan y Goron i gynnal yr archwiliad allanol o Gynulliad Cenedlaethol Cymru a'i gyrff cyhoeddus noddedig a chysylltiedig. Ariennir swydd Archwilydd Cyffredinol Cymru gan y Cynulliad ond mae'n annibynnol arno.

O dan Adran 90(1) o'r Ddeddf, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi trefnu bod y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn darparu gwasanaeth gweinyddol, proffesiynol a thechnegol llawn iddo er mwyn ei gynorthwyo i gyflawni ei swyddogaethau statudol. Gall benodi ei staff ei hun neu sicrhau y darperir gwasanaethau o'r fath gan ffynonellau eraill ond yn gyntaf mae'n rhaid iddo roi sylw i unrhyw drefniant o'r fath a wneid neu y gellir ei wneud gyda'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Ym mis Gorffennaf 1999, penododd yr Archwilydd Cyffredinol ddirprwy - Lew Hughes - fel aelod o'i staff ei hun i oruchwylio'r gwasanaethau a ddarperir gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ac i'w gynorthwyo wrth gyflawni ei swyddogaethau. Ymddiswyddodd Lew Hughes o'r swydd hon ar 31 Mawrth 2004.

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol ag Adran 93(8) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 ar ffurf a gyfarwyddir gan y Trysorlys.

## Nod ac Amcanion

Prif rôl Archwilydd Cyffredinol Cymru yw darparu gwybodaeth, sicrwydd a chyngor annibynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol ynglŷn â'r ffordd y mae'r Cynulliad a chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru yn rhoi cyfrif am arian y trethdalwyr ac yn ei ddefnyddio. Mae'r Archwilydd Cyffredinol gyda chymorth y Swyddfa Archwilio Genedlaethol hefyd yn ceisio helpu cyrff o'r fath i ddarparu gwell rheolaeth ariannol a gwerth am arian.

Er mwyn cyflawni ei nod o helpu "Cymru i wario'n ddoeth", mae gan yr Archwilydd Cyffredinol bedwar amcan ar hyn o bryd:

- ardystio a chyflwyno adroddiad ar gyfrifon
- cynnal gwaith gwerth am arian
- ystyried risgiau i systemau, rheoleidd-dra a gwedduster ariannol a chyflwyno adroddiad arnynt
- gwaith arall ar gyfer y cyhoedd a'r Cynulliad Cenedlaethol.

Caiff y gost o gyflawni pob un o'r amcanion hyn ac unrhyw refeniw cysylltiedig eu hadlewyrchu yn y Datganiad Adnoddau yn ôl Amcanion.

## Prif weithgareddau

Prif weithgareddau Archwilydd Cyffredinol Cymru, gyda chymorth y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, yw:

- archwilio a chyflwyno adroddiad i'r Cynulliad ar ei gyfrifon blynyddol a chyfrifon ei gyrff cyhoeddus cysylltiedig;
- ystyried a chyflwyno adroddiad i'r Cynulliad ynghylch a yw arian trethdalwyr yn cael ei wario mewn ffordd ddarbodus, effeithlon ac effeithiol;
- ystyried risgiau i reoleidd-dra, gwedduster a rheolaeth ariannol a rhoi adroddiad ar ganlyniadau i gyrff cyhoeddus unigol a'r Cynulliad.

Mae'r rhan fwyaf o'r gweithgareddau hyn yn llifo o swyddogaethau a rhwymedigaethau statudol yr Archwilydd Cyffredinol a chânt eu hariannu drwy grant gan y Cynulliad. Fodd bynnag, codir tâl am archwilio cyfrifon cyrff cyhoeddus (ac eithrio'r rhai a baratoir gan y Cynulliad ei hun) a gwasanaethau cysylltiedig penodol eraill.

## Adroddiad Blynyddol

Ceir crynodeb o weithgareddau a gwaith yr Archwilydd Cyffredinol yn ystod y flwyddyn yn ei adroddiad blynyddol a gyhoeddir gyda'r datganiadau ariannol hyn.

## Asedau Sefydlog

Mae asedau sefydlog yn cynnwys mân eitemau o ddodrefn swyddfa ac ategolion cyfrifiadurol yn bennaf. Ni brynwyd unrhyw eitemau yn ystod y flwyddyn.

## Canlyniadau ar gyfer y cyfnod

Y gost weithredu net ar gyfer y flwyddyn oedd £2,568,000 (£2,325,000 yn 2002-03). Cyfanswm yr asedau net ar 31 Mawrth 2004 oedd £390,000 (£323,000 ar 31 Mawrth 2003).

## Archwilydd Cyffredinol Cymru

Penodir swydd Archwilydd Cyffredinol Cymru gan y Goron ar gyngor Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Penodwyd Syr John Bourn yn Archwilydd Cyffredinol cyntaf Cymru ym mis Mehefin 1999 ac mae'r penodiad hwn wedi'i adnewyddu hyd at 31 Mawrth 2005. O dan Adran 90(2) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gorfforaeth unigol.

## Rheoli swyddfa Archwilydd Cyffredinol Cymru

Yn ystod cyfnod y cyfrifon, cyflogodd yr Archwilydd Cyffredinol un aelod o staff, sef Lew Hughes, fel ei ddirprwy. Caiff yr Archwilydd Cyffredinol gyngor a chymorth hefyd wrth gyflawni ei swyddogaethau statudol gan uwch staff y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Yn ystod 2003-04, yr aelodau hyn o staff oedd:

**Cyfarwyddwyr**

| | |
|---|---|
| Archwiliad ariannol a gweinyddiaeth | Ian Summers |
| Archwiliad ariannol | Mike Usher |
| Archwiliad gwerth am arian | Gillian Body |
| Archwiliad gwerth am arian | Janice Lawler |

Caiff adroddiad a chyfrifon blynyddol y Swyddfa Archwilio Genedlaethol eu cyhoeddi ar wahân a'u gosod gerbron y Senedd.

## Cydnabyddiaeth yr Archwilydd Cyffredinol

Mae Adran 91 Deddf Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad dalu'r cyfryw gyflog a lwfansau i'r Archwilydd Cyffredinol a gwneud y cyfryw daliadau i ddarparu budd-daliadau pensiwn ag a ddarperir o dan delerau ei benodiad. Dangosir y manylion am y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2004 yn nodyn 3 i'r cyfrifon.

## Archwilwyr swyddfa Archwilydd Cyffredinol Cymru

Yn wreiddiol, penododd y Cynulliad Cenedlaethol Owens Thomas Cyf. fel archwilwyr cyfrifon Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer y tair blynedd o 1999-2000 i 2001-2002. Yn ystod y flwyddyn, ymestynnodd y Cynulliad y penodiad hwn am ddwy flynedd arall hyd 2003-2004. Ar 2 Gorffennaf 2003, unodd Owens Thomas Limited â KTS ac enw'r busnes newydd yw KTS Owens Thomas Limited.

## Talu cyflenwyr

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi mabwysiadu cod talu'n brydlon Cydffederasiwn Diwydiant Prydain. Y polisi yw y dylid talu pob bil yn unol ag amodau'r cytundeb, neu lle nad oes amodau o'r fath, o fewn 30 diwrnod i dderbyn y nwyddau neu'r gwasanaethau, neu gyflwyno anfoneb ddilys, pa un bynnag yw'r diweddaraf. Ar gyfer blwyddyn y cyfrif talwyd 98 y cant o anfonebau na ddadleuwyd yn eu cylch o fewn 30 diwrnod i'w derbyn a thalwyd 98 y cant o'r holl anfonebau nad oeddent yn ymwneud â'r sector cyhoeddus o fewn 30 diwrnod i'w derbyn.

## Digwyddiadau y Dyfodol

Ni ddigwyddodd unrhyw beth ers dyddiad y Fantolen a fyddai'n cael effaith ar y datganiadau ariannol ar gyfer y cyfnod hyd 31 Mawrth 2004.

O dan y Mesur Archwilio Cyhoeddus (Cymru), sydd gerbron y Senedd ar hyn o bryd, caiff y cyfrifoldeb o archwilio sefydliadau GIG Cymru ac archwilio ac arolygu llywodraeth leol Cymru a chyrff cysylltiedig yng Nghymru ei drosglwyddo o'r Comisiwn Archwilio i'r Archwilydd Cyffredinol. Bydd staff y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a'r Comisiwn Archwilio a leolir yng Nghymru yn trosglwyddo i gyflogaeth yr Archwilydd Cyffredinol i ffurfio "Swyddfa Archwilio Cymru". Bydd y corff newydd hwn, gan weithio gyda'i bartneriaid yn y sector preifat, yn archwilio neu'n goruchwylio'r broses o archwilio'r rhan fwyaf o gyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru. Yn amodol ar weithredu'r Mesur a'r is-ddeddfwriaeth angenrheidiol, daw'r trefniadau newydd hyn i rym ar 1 Ebrill 2005.

**John Bourn** **6 Gorffennaf 2004**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

## Datganiad o gyfrifoldebau Archwilydd Cyffredinol Cymru

Yn unol â chyfarwyddyd y Trysorlys, paratowyd y cyfrifon hyn ar sail croniadau er mwyn rhoi darlun teg a chywir o sefyllfa Archwilydd Cyffredinol Cymru ar ddiwedd y flwyddyn ac o'r alldro adnoddau net, yr adnoddau a ddefnyddir ar gyfer amcanion, enillion a cholledion cydnabyddedig a llifau arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon hyn, mae'n ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru:

- gadw at ofynion y Llawlyfr Cyfrifo Adnoddau gan gynnwys y gofynion cyfrifo a datgelu perthnasol a defnyddio polisïau cyfrifo addas yn gyson;
- llunio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- nodi p'un a ddilynwyd y safonau cyfrifo perthnasol ai peidio a datgelu unrhyw achos o wyro oddi wrthynt yn y datganiadau ariannol; a
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes byw oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd y swydd yn parhau i weithredu.

Mae cyfrifoldebau perthnasol yr Archwilydd Cyffredinol dros wedduster a rheoleidd-dra ei gyllid a thros gadw cofnodion cywir yn cydweddu â'r rhai a nodir ym Memorandwm y Swyddog Cyfrifo fel y'i cyhoeddwyd yn "Government Accounting" (Y Llyfrfa).

## Datganiad o Reolaeth Fewnol

### Cwmpas a chyfrifoldeb

Fel Archwilydd Cyffredinol Cymru, mae cyfrifoldeb arnaf i gynnal system rheolaeth fewnol gadarn sy'n fy nghefnogi wrth gyflawni fy amcanion a'm rhaglen waith tra'n diogelu arian ac asedau cyhoeddus yr wyf yn bersonol gyfrifol amdanynt.

Rwyf yn gweithredu'n annibynnol ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru ond rwyf yn atebol i'w Bwyllgor Archwilio mewn perthynas â'r adnoddau sydd ar gael i mi eu defnyddio i'm cefnogi wrth gyflawni fy swyddogaethau statudol. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn fy nghynghori hefyd ar fy mlaenraglen waith o archwiliadau mewn perthynas â darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ac yn ystyried fy amcangyfrif blynyddol o incwm a threuliau.

Yn unol ag Adran 92(1) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, rwyf wedi trefnu bod y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn darparu gwasanaethau gweinyddol, proffesiynol a thechnegol i'm cynorthwyo i gyflawni fy swyddogaethau statudol. Mae gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ei threfniadau cynhwysfawr ei hun ar gyfer rheoli risg fel y'u nodir yn y Datganiad o Reolaeth Fewnol sy'n gynwysedig yn ei chyfrifon cyhoeddedig.

### Diben y system rheolaeth fewnol

Mae'r system rheolaeth fewnol wedi'i chynllunio i reoli risg yn rhesymol yn hytrach na dileu pob risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion; felly dim ond sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd y gall ei roi, ac nid sicrwydd absoliwt. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus sydd wedi'i chynllunio i nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni fy nodau, fy amcanion a'm rhaglen waith, i werthuso tebygolrwydd y risgiau hynny a'u heffaith, a'u rheoli mewn modd effeithlon, effeithiol a darbodus. Bu'r system rheolaeth fewnol ar waith ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2004 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon, ac yn unol ag arweiniad y Trysorlys.

## Capasiti i ddelio â risg

Rwyf wedi nodi a rheoli'r risgiau drwy ymgynghori â'm dirprwy ac uwch staff y Swyddfa Archwilio Genedlaethol sy'n helpu i reoli fy ngweithrediadau a'm rhaglen waith. Maent yn hyddysg yn y maes ac mae eu datblygiad proffesiynol parhaus yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am arfer gorau yn y maes rheolaeth gorfforaethol.

## Y fframwaith risgiau a rheolaeth

Rwyf wedi nodi'r prif risgiau i'm hamcanion a'm rhaglen waith. Nodir y rhain, ynghyd â strategaeth rheolaeth a chyfrifoldebau rheoli risg yn y ddogfen rheoli risgiau a gymeradwywyd gennyf.

Fel rhan o'm swyddogaethau cyfredol a'm rhaglen waith, rwy'n ystyried rheoli risg a rheolaeth fewnol yn gyson yn ystod y flwyddyn a chynhelaf asesiad risgiau a rheolaeth llawn o leiaf unwaith y flwyddyn. Roedd yr ystyriaethau a'r asesiadau hyn yn cynnwys adroddiadau gan fy nirprwy ac uwch staff yn Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru ar y camau y maent yn eu cymryd i reoli risgiau yn eu meysydd o gyfrifoldeb.

Disgwylir i'r Mesur Archwilio Cyhoeddus (Cymru), sydd gerbron y Senedd ar hyn o bryd, ddod i rym ar 1 Ebrill 2005. Bydd y ddeddfwriaeth hon yn ymestyn swyddogaethau Archwilydd Cyffredinol Cymru drwy drosglwyddo'r swyddogaethau a weithredir ar hyn o bryd gan y Comisiwn Archwilio yng Nghymru a bydd yn creu Swyddfa Archwilio Cymru wrth i staff y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a'r Comisiwn Archwilio a leolir yng Nghymru gael eu trosglwyddo i gyflogaeth yr Archwilydd Cyffredinol. Mae'r broses hon, sy'n cynnwys uno staff o ddau sefydliad gwahanol, yn her sylweddol gyda risgiau cysylltiedig y mae angen eu rheoli. Mae uwch staff o'r Comisiwn Archwilio a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn gysylltiedig ag amrywiaeth o weithgareddau sydd eu hangen i sicrhau proses uno lwyddiannus a chydlynir eu gwaith gan Gyfarwyddwr Cyffredinol y Comisiwn Archwilio yng Nghymru a benodwyd gennyf fel Dirprwy i mi ac fel darpar Brif Weithredwr Swyddfa Archwilio Cymru sydd â chyfrifoldeb penodol dros y broses integreiddio. Fe'i gefnogir gan reolwr prosiect annibynnol sydd wedi casglu restr fanwl o risgiau ac sydd wrthi'n monitro'r rhestr honno.

Mae rheoli risgiau yn parhau i fod yn rhan annatod o'm prosesau cynllunio busnes a gwneud penderfyniadau.

## Adolygu effeithiolrwydd

Rwyf yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Mae fy adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol wedi'i lywio gan waith fy nirprwy ac uwch staff y Swyddfa Archwilio Genedlaethol sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal fy fframwaith rheolaeth fewnol, a sylwadau a wnaed gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill. Cefais gyngor ar oblygiadau canlyniad fy adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol ac mae cynllun i fynd i'r afael â'r gwendidau a sicrhau gwelliant parhaus y system ar waith.

Fel rhan o'r broses o greu Swyddfa Archwilio Cymru, byddaf yn adolygu'r broses o gynnal ac adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol a'r trefniadau rheolaeth gorfforaethol yn fwy cyffredinol.

**John Bourn** **6 Gorffennaf 2004**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

## Tystysgrif ac Adroddiad KTS Owens Thomas Cyf. I Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Ardystiwn ein bod wedi archwilio'r datganiadau ariannol ar dudalennau 32 i 44 o dan Adran 94(8) Deddf Llywodraeth Cymru 1998. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol a'r polisïau cyfrifo a nodir ar dudalen 27.

### Priod gyfrifoldebau Archwilydd Cyffredinol Cymru a KTS Owens Thomas Cyf.

Fel y disgrifir ar dudalen 28 mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 1998 a chyfarwyddiadau'r Trysorlys a wnaed oddi tani ac am sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru hefyd yn gyfrifol am baratoi cynnwys arall yr Adroddiad Blynyddol. Mae ein cyfrifoldebau, fel archwilwyr annibynnol, wedi'u sefydlu drwy statud ac rydym yn ystyried y safonau a'r arweiniad a roddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio a'r arweiniad moesegol sy'n berthnasol i'r proffesiwn archwilio.

Rydym yn nodi, yn ein barn ni, a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun teg a chywir ac a ydynt wedi'u paratoi'n gywir yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 1998 a chyfarwyddiadau'r Trysorlys a wnaed oddi tani, ac a ddefnyddiwyd y gwariant a'r incwm ym mhob agwedd berthnasol at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac a yw'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Nodwn hefyd os, yn ein barn ni, nad yw'r Rhagair yn gyson â'r datganiadau ariannol, os nad yw Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi cadw cofnodion cyfrifo cywir, neu os nad ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer ein harchwiliad.

Rydym yn darllen y wybodaeth arall a geir yn yr Adroddiad Blynyddol, ac yn ystyried a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol archwiliedig. Rydym yn ystyried y goblygiadau i'n tystysgrif os deuwn yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiad ymddangosiadol neu unrhyw anghysondeb perthnasol gyda'r datganiadau ariannol.

Adolygwn p'un a yw'r datganiad ar tudalennau 28 a 29 yn adlewyrchu bod Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cydymffurfio ag arweiniad y Trysorlys, sef "Corporate Governance: Statement on Internal Control". Nodwn os nad yw'n bodloni'r gofynion datgelu a bennwyd gan y Trysorlys, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall yr ydym yn ymwybodol ohoni sy'n deillio o'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol. Nid yw'n ofynnol i ni ystyried, ac nid ydym wedi ystyried, p'un a yw'r Datganiad o Reolaeth Fewnol yn cwmpasu'r holl risgiau a'r rheolaethau. Nid yw'n ofynnol i ni ychwaith fynegi barn ar effeithiolrwydd gweithdrefnau llywodraethu corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol na'i weithdrefnau o ran risgiau a rheoli.

### Sail y farn archwilio

Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â Safonau Archwilio'r Deyrnas Unedig a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys ystyried, ar sail prawf, dystiolaeth sy'n berthnasol i symiau, datgeliadau a rheoleidd-dra trafodion ariannol a gynhwysir yn y datganiadau ariannol. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r farn sylweddol a wnaed gan Archwilydd Cyffredinol Cymru wrth baratoi'r datganiadau ariannol, a ph'un a yw'r polisïau cyfrifo yn briodol i amgylchiadau Archwilydd Cyffredinol Cymru, wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol ai peidio.

Cynlluniwyd a chyflawnwyd ein harchwiliad er mwyn cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau yr oedd eu hangen yn ein barn ni er mwyn darparu digon o dystiolaeth i ni roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed drwy gamgymeriad neu drwy dwyll neu afreoleidd-dra arall, ac ymhob agwedd berthnasol bod y gwariant a'r incwm wedi'u defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Wrth lunio ein barn rydym hefyd wedi gwerthuso digonolrwydd cyffredinol y wybodaeth a gyflwynir yn y datganiadau ariannol.

## Barn

Yn ein barn ni:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun teg a chywir o sefyllfa Archwilydd Cyffredinol Cymru ar 31 Mawrth 2004 ac o'r alldro adnoddau net, yr adnoddau a ddefnyddiwyd i gyflawni amcanion, enillion a cholledion cydnabyddedig a llif arian ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny ac maent wedi eu paratoi'n gywir yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 1998 a'r cyfarwyddiadau a wneir gan y Trysorlys o dan y Ddeddf honno; ac
- ymhob agwedd berthnasol defnyddiwyd y gwariant a'r incwm at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Nid oes gennym unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**KTS Owens Thomas Cyf.**
*Cyfrifyddion, Archwilwyr*
*Cofrestredig ac Ymgynghorwyr Busnes*

*33-35 Heol y Gadeirlan*
*CAERDYDD*
*CF11 9TZ*

*8 Gorffennaf 2004*

# ATODLEN 1

## Crynodeb o'r Alldro Adnoddau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2004

| | 2003-04 Amcangyfrif | | | 2003-04 Alldro | | | 2003-04 | 2002-03 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Gwariant gros** | **Incwm** | **Cyfanswm net** | **Gwariant gros** | **Incwm** | **Cyfanswm net** | **Cyfanswm alldro net o gymharu ag arbedion amcangyfrifedig/ (gorwario)** | **Alldro'r flwyddyn flaenorol** |
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| Gweinyddiaeth | 3060 | (515) | **2545** | 3172 | (655) | **2517** | **28** | 2271 |

## Cysoni'r alldro adnoddau â'r gofyniad arian parod net

| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm net alldro adnoddau (*Atodlen 2*) | 2545 | 2517 | **28** | 2271 |
| Caffaeliadau asedau sefydlog (*Nodyn 6*) | 3 | 0 | 3 | 2 |
| Addasiadau croniadau: | | | | |
| Eitemau nad ydynt yn arian parod (*Nodyn 4*) | (37) | (24) | (13) | (28) |
| Newidiadau mewn cyfalaf waith ac eithrio arian parod (*Nodyn 10*) | 7 | 65 | (58) | 11 |
| Gofyniad arian parod net (*Atodlen 4*) | **2518** | **2558** | (40) | 2256 |

## Esboniadau

Mae'r gwariant a'r incwm yn uwch na'r amcangyfrif gwreiddiol o ganlyniad i waith nas raglennwyd ar archwilio ceisiadau am grantiau.

Nid yw'r alldro adnoddau yn cynnwys cost cyflog yr Archwilydd Cyffredinol (£51,000 yn 2003-04 a £54,000 yn 2002-03 - gweler nodyn 3) oherwydd talwyd hwn yn uniongyrchol gan y Cynulliad ac felly fe'i heithriwyd o'r amcangyfrif a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio o dan Adran 93 Deddf Llywodraeth Cymru 1998. Felly, mae'r alldro adnoddau yn wahanol i'r gost weithredu net (Atodlen 2) yn ôl y swm hwnnw.

*Mae'r nodiadau ar dudalennau 37 i 44 yn rhan o'r cyfrifon hyn*

# ATODLEN 2

## Datganiad Cost Weithredu Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2004

| | Nodyn | 2003-04 £000 | 2002-03 £000 |
|---|---|---|---|
| Symiau sy'n daladwy i'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol | 2 | 3067 | 2679 |
| Costau staff | 3 | 111 | 104 |
| Costau gweinyddol eraill | 4 | 45 | 46 |
| **Costau Gweinyddol Gros** | | **3223** | 2829 |
| Incwm gweithredu | 5 | (655) | (504) |
| **Cost weithredu net** | | **2568** | 2325 |
| **Alldro adnoddau net** | | **2517** | 2271 |

Mae pob gweithgaredd yn parhau. Nid oes unrhyw enillion na cholledion cydnabyddedig ac eithrio'r rhai a nodwyd yn y datganiad Cost Weithredu.

*Mae'r nodiadau ar dudalennau 37 i 44 yn rhan o'r cyfrifon hyn*

# ATODLEN 3

## Y Fantolen ar 31 Mawrth 2004

| | Nodyn | 31 Mawrth 2004 £000 | 31 Mawrth 2004 £000 | 31 Mawrth 2003 £000 | 31 Mawrth 2003 £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Asedau Sefydlog:** | | | | | |
| Asedau diriaethol | 6 | | - | | 1 |
| **Asedau Cyfredol** | | | | | |
| Dyledwyr sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | 7 | 59 | | 65 | |
| Gwaith sy'n mynd rhagddo | 7 | 213 | | 174 | |
| Arian parod yn y banc ac mewn llaw | 8 | 124 | | 121 | |
| | | 396 | | 360 | |
| **Credydwyr sy'n ddyledus o fewn blwyddyn** | 9 | (6) | | (38) | |
| **Asedau Cyfredol Net** | | | 390 | | 322 |
| **Asedau Net** | | | **390** | | 323 |
| **Ecwiti Trethdalwyr** | | | | | |
| Y Gronfa Gyffredinol | 11 | | **390** | | 323 |

**John Bourn**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru** **6 Gorffennaf 2004**

*Mae'r nodiadau ar dudalennau 37 i 44 yn rhan o'r cyfrifon hyn*

# ATODLEN 4

## Datganiad Llif Arian Parod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2004

| | Nodyn | 2003-04 £000 | 2002-03 £000 |
|---|---|---|---|
| All-lif arian net o weithgareddau gweithredu | | **2558** | (2254) |
| Gwariant cyfalaf | 6 | - | (2) |
| Arian gan y Cynulliad | | 2561 | 2325 |
| Cynnydd mewn arian parod yn ystod y cyfnod | | **3** | 69 |

**Nodiadau i'r Datganiad Llif Arian**

**Cysoni'r gost weithredu â'r llifau arian parod gweithredu**

| | Nodyn | 2003-04 £000 | 2002-03 £000 |
|---|---|---|---|
| Cost Gweithredu Net | | **2568** | 2325 |
| Addaser ar gyfer: | | | |
| Gwariant a delir yn uniongyrchol gan y Cynulliad (costau cyflog yr Archwilydd Cyffredinol - gweler nodyn 3) | 3 | (51) | (54) |
| Trafodion nad ydynt yn drafodion arian parod | 4 | (24) | (28) |
| Symudiadau o ran cyfalaf waith ac eithrio arian parod | 10 | 65 | 11 |
| **All-lif arian parod net o weithgareddau gweithredu** | | **2558** | 2254 |

**Dadansoddiad o'r gwariant cyfalaf**

| | Nodyn | 2003-04 £000 | 2002-03 £000 |
|---|---|---|---|
| Taliadau i gaffael asedau sefydlog diriaethol | 6 | - | 2 |
| **All-lif arian parod net o wariant cyfalaf** | | - | - |

**Dadansoddiad o'r arian**

| | Nodyn | 2003-04 £000 | 2002-03 £000 |
|---|---|---|---|
| Arian gan y Cynulliad | | 2561 | 2325 |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn arian parod | 8 | (3) | (69) |
| **Gofyniad arian parod net** | | **2558** | 2256 |

*Mae'r nodiadau ar dudalennau 37 i 44 yn rhan o'r cyfrifon hyn*

# ATODLEN 5

## Datganiad Adnoddau fesul Amcan ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2004

| | | 2003-04 | | | 2002-03 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Gros £000** | **Incwm £000** | **Net £000** | **Gros £000** | **Incwm £000** | **Net £000** |
| **Amcam 1** | | | | | | |
| Ardystio a chyflwyno adroddiad ar gyfrifon | 1241 | 542 | **699** | 1163 | 463 | 700 |
| **Amcam 2** | | | | | | |
| Gwaith gwerth am arian | 1339 | - | 1339 | 1213 | - | 1213 |
| **Amcam 3** | | | | | | |
| Ystyried risgiau i systemau, rheoleidd-dra a gwedduster ariannol a chyflwyno adroddiadau arnynt | 355 | 113 | 242 | 245 | 41 | 204 |
| **Amcam 4** | | | | | | |
| Gwaith arall i'r cyhoedd a'r Cynulliad Cenedlaethol | 288 | - | 288 | 208 | - | 208 |
| **CYFANSWM** | **3223** | **655** | **2568** | 2829 | 504 | 2325 |

*Mae'r nodiadau ar dudalennau 37 i 44 yn rhan o'r cyfrifon hyn*

# NODIADAU I'R CYFRIFON ADNODDAU

## 1 Datganiad Polisïau Cyfrifo

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â'r Llawlyfr Cyfrifo Adnoddau a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM. Disgrifir y polisïau cyfrifo penodol a fabwysiadwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru isod. Fe'u cymhwyswyd yn gyson wrth ymdrin ag eitemau a ystyrir yn berthnasol i'r cyfrifon.

### Confensiwn Cyfrifo

1.1 Paratowyd y cyfrifon hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol wedi'i haddasu i gyfrif am ailbrisio asedau sefydlog a stoc, lle y bo'n berthnasol, yn ôl eu gwerth i'r busnes drwy gyfeirio at eu cost bresennol.

### Asedau Sefydlog Diriaethol

1.2 Mae asedau sefydlog diriaethol yn cynnwys offer cyfrifiadurol a ddibrisir dros 3 blynedd ar sail llinell syth. Y trothwy cyfalafu a fabwysiadwyd yw £500. Ym marn yr Archwilydd Cyffredinol nid oes gwahaniaeth perthnasol rhwng cost hanesyddol asedau sefydlog a'r swm a ailbrisiwyd.

### Stoc

1.3 Codir tâl ar y cyfrif am stoc defnyddiadwy yn y flwyddyn y'i prynir.

### Incwm Gweithredu

1.4 Mae incwm gweithredu yn codi'n bennaf o ffioedd am archwilio cyfrifon a chostau am wasanaethau a ddarperir drwy gytundeb â sefydliadau cleient. Incwm yw'r symiau a dderbynnir am ddarparu gwaith i gleientiaid yn ystod y flwyddyn. Fe'i gyfrifir drwy gyfeirio at werth y gwaith a gyflawnwyd ar ddyddiad y fantolen. Ystyrir gwaith a gwblhawyd cyn diwedd y flwyddyn lle na roddwyd anfoneb ar ei gyfer yn waith sy'n mynd rhagddo.

### Tâl Cyfalaf

1.5 Cynhwysir tâl cyfalaf nad yw'n arian parod, sy'n adlewyrchu cost gyfalaf a ddefnyddiwyd ar gyfartaledd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn y costau gweithredu ac fe'i gyfrifir fel 3.5 y cant (6 y cant yn 2002-03) mewn termau real ar bob ased llai rhwymedigaeth ac eithrio balansau arian parod gyda Swyddfa'r Tâl-feistr Cyffredinol.

### Treth ar Werth

1.6 Cofrestrir yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer TAW. Codir TAW na ellir ei hadennill ar y pennawd cost fwyaf priodol.

## 2 Symiau sy'n daladwy i'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, o dan Adran 90(1) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, wedi trefnu i'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol ddarparu gwasanaeth gweinyddol, proffesiynol a thechnegol llawn i'w gynorthwyo i gyflawni ei swyddogaethau statudol. Darperir y gwasanaeth hwn ar sail adennill cost lawn.

# NODIADAU I'R CYFRIFON ADNODDAU

## 3 Costau staff

| | 2003-04 £000 | 2002-03 £000 |
|---|---|---|
| Cyflogau | 99 | 94 |
| Cyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr | 12 | 10 |
| | **111** | 104 |

O dan Adran 91 Deddf Llywodraeth Cymru 1998 telir costau cyflog Archwilydd Cyffredinol Cymru yn uniongyrchol gan y Cynulliad. Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2004 £50,750 (£54,198 ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2003) oedd y swm a gynhwyswyd uchod.

Mae'r tabl canlynol yn rhoi rhagor o wybodaeth am gydnabyddiaeth yr Archwilydd Cyffredinol a'i Ddirprwy ar gyfer 2003-04.

| Enw | Swydd | Oedran | Cyflog sylfaenol (£) | Bonws a dalwyd yn y flwyddyn (£) |
|---|---|---|---|---|
| Syr John Bourn KCB | Archwilydd Cyffredinol Cymru | 70 | 45,516 | - |
| Lew Hughes CB | Dirprwy Archwilydd Cyffredinol | 59 | 48,858 | 4,687 |

Mae'r ddwy swydd heb bensiwn.

## 4 Costau Gweinyddol Eraill

| | 2003-04 £000 | 2002-03 £000 |
|---|---|---|
| **Eitemau nad ydynt yn arian parod:** | | |
| Cost tâl gyfalaf | 8 | 12 |
| Adeilad a ddarperir gan y Cynulliad Cenedlaethol | 15 | 15 |
| Dibrisiant | 1 | 1 |
| | **24** | 28 |
| **Gwariant arall:** | | |
| Cyflenwadau ac offer swyddfa | 1 | 1 |
| Costau teithio, cynhaliaeth a threuliau cysylltiedig | 13 | 10 |
| Cyfieithu, argraffu a gwasanaethau eraill | 2 | 1 |
| Ffi archwilio allanol | 5 | 6 |
| | 21 | 18 |
| **Cyfanswm** | **45** | 46 |

# NODIADAU I'R CYFRIFON ADNODDAU

## 5 Incwm Gweithredu

| | **2003-04 £000** | **2002-03 £000** |
|---|---|---|
| Ffioedd a thaliadau archwilio | **655** | 504 |

Mae gan Archwilydd Cyffredinol Cymru darged o adennill y gost lawn o ymgymryd â gweithgareddau y codir ffi amdanynt. Ymhlith y rhain mae archwilio cyfrifon (ac eithrio'r rhai a baratowyd gan y Cynulliad) a gwaith archwilio ariannol cysylltiedig. Cesglir y ffioedd ar ôl cwblhau'r gwaith. Mae'r tabl canlynol yn rhoi gwybodaeth am yr incwm a'r gwariant yn ystod 2003-04 am wasanaethau lle mae gan yr Archwilydd Cyffredinol hawl i godi ffi. Mae'n bodloni gofynion arweiniad y Trysorlys, "Fees and Charges".

| **Categori'r gwaith** | **Incwm (£000)** | **Gwariant (£000)** | **Gwarged/ (diffyg) (£000)** |
|---|---|---|---|
| Archwilio cyfrifon | 542 | **726** | **(184)** |
| Gwaith arall | 113 | 11 | 102 |
| **Cyfanswm** | 655 | **737** | **(82)** |

## 6 Asedau Sefydlog Diriaethol

| | Offer cyfrifiadurol £000 |
|---|---|
| **Cost neu brisiad:** | |
| Ar 1 Ebrill 2003 | 2 |
| Ychwanegiadau | - |
| *Ar 31 Mawrth 2004* | **2** |
| **Dibrisiant:** | |
| Ar 1 Ebrill 2003 | 1 |
| A godwyd yn ystod y flwyddyn | 1 |
| *Ar 31 Mawrth 2004* | **2** |
| **Gwerth Net Ar Bapur:** | |
| Ar 31 Mawrth 2004 | - |
| *Ar 1 Ebrill 2003* | 1 |

## 7 Dyledwyr a Gwaith sy'n Mynd Rhagddo

| | 31 Mawrth 2004 £000 | 31 Mawrth 2003 £000 |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:** | | |
| Symiau y gellir eu hadennill ar gontractau | **59** | 65 |
| Gwaith sy'n mynd rhagddo | **213** | 174 |
| | **272** | 239 |

# NODIADAU I'R CYFRIFON ADNODDAU

## 8 Arian Parod yn y Banc ac mewn Llaw

| | 2003-04 £000 | 2002-03 £000 |
|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill | 121 | 52 |
| Mewnlif /(all-lif) arian parod net | (3) | (69) |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **124** | 121 |

Ar 31 Mawrth 2004, daliwyd y balans uchod gan swyddfa Tâl-Feistr Cyffredinol EM, sy'n darparu gwasanaeth bancio cyfrif cyfredol.

## 9 Credydwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn

| | 31 Mawrth 2004 £000 | 31 Mawrth 2003 £000 |
|---|---|---|
| Credydwyr Treth a Nawdd Cymdeithasol | - | 2 |
| Credydwyr eraill | 1 | 27 |
| Croniadau | 5 | 9 |
| | **6** | 38 |

## 10 Symudiadau mewn cyfalaf gwaith ac eithrio arian parod

| | 2003-04 £000 | 2002-03 £000 |
|---|---|---|
| Cynnydd/(Gostyngiad) o ran dyledwyr | 33 | 14 |
| Gostyngiad/(Cynnydd) o ran credydwyr | 32 | (3) |
| | **65** | 11 |

## 11 Ecwiti Trethdalwyr

**Cysoni'r gost Weithredu Net â newidiadau i'r Gronfa Gyffredinol**

| | 2003-04<br>£000 | 2002-03<br>£000 |
|---|---|---|
| **Cost weithredu net ar gyfer y flwyddyn** | (2568) | (2325) |
| Arian gan y Cynulliad Cenedlaethol | 2561 | 2325 |
| Gwariant a delir yn uniongyrchol gan y Cynulliad (costau cyflog yr Archwilydd Cyffredinol - gweler nodyn 3) | 51 | 54 |
| Taliadau tybiannol a godir: | | |
| Cost gyfalaf | 8 | 12 |
| Adeilad a ddarperir gan y Cynulliad | 15 | 15 |
| Cynnydd / (gostyngiad) net yn y Gronfa Gyffredinol | 67 | 81 |
| Y Gronfa Gyffredinol ar 1 Ebrill | 323 | 242 |
| **Y Gronfa Gyffredinol ar 31 Mawrth** | **390** | 323 |

## 12 Ymrwymiadau cyfalaf

Ar 31 Mawrth 2004, nid oedd unrhyw ymrwymiadau cyfalaf (dim ar 31 Mawrth 2003).

## 13 Rhwymedigaethau amodol

Ar 31 Mawrth 2004, nid oedd unrhyw rwymedigaethau amodol (dim ar 31 Mawrth 2003).

## 14 Trafodion partïon cysylltiedig

Pennaeth y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yw'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol ac fe'i sefydlwyd gan Ddeddf yr Archwiliad Cenedlaethol 1983. Ar hyn o bryd, Archwilydd Cyffredinol Cymru sydd hefyd yn dal swydd y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol. Felly ystyrir y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn barti cysylltiedig. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol hefyd yn barti cysylltiedig.

Gwnaeth swydd Archwilydd Cyffredinol Cymru nifer o drafodion â chyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad hefyd. Bu'r rhan fwyaf o'r trafodion hyn â sefydliadau amrywiol sy'n gleientiaid y codir ffi arnynt.

Nid yw Archwilydd Cyffredinol Cymru, ei Ddirprwy na staff y Swydd Archwilio Genedlaethol sy'n darparu gwasanaethau iddo wedi ymgymryd ag unrhyw drafodion partïon cysylltiedig gyda swydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ystod y flwyddyn.

# NODIADAU I'R CYFRIFON ADNODDAU

## 15 Nodiadau i'r Datganiad Adnoddau fesul Amcan

Dyrennir costau i amcanion ar sail y costau a gofnodir yn system cofnodi amser y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Dyrennir costau gwaith anuniongyrchol i amcanion drwy eu dosrannu ar sail pro-rata i gostau gwaith uniongyrchol.

## 16 Colledion a thaliadau arbennig

Nid oes unrhyw golledion sylweddol na thaliadau arbennig yn 2003-04 sy'n galw am ddatgeliad yn unol â'r Llawlyfr Cyfrifo Adnoddau.

## 17 Deilliadau ac offerynnau ariannol

Yn unol â FRS 13, Derivatives and Other Financial Instruments, rhaid datgelu'r rôl a gafodd offerynnau ariannol yn ystod y cyfnod o ran creu neu newid y risgiau a wynebir gan endid wrth ymgymryd â'i weithgareddau. Oherwydd natur eithaf anfasnachol gweithgareddau'r Archwilydd Cyffredinol a'r ffordd yr ariennir ei weithredoedd, ni chaiff ei swydd ei hamlygu i'r graddau o risg ariannol a wynebir gan endidau busnes. At hynny, mae offerynnau statudol yn chwarae rhan llawer mwy cyfyngedig o ran creu neu newid risg na'r hyn a fyddai'n nodweddiadol o'r cwmnïau rhestredig y mae FRS 13 yn fwyaf perthnasol iddynt. Ychydig iawn o bwerau sydd gan yr Archwilydd Cyffredinol i fenthyca neu fuddsoddi arian sy'n weddill a, heblaw am flaen-bryniadau cymharol fach o arian cyfred, cynhyrchir asedau ariannol a rhwymedigaethau gan weithgareddau gweithredol o ddydd i ddydd ac ni chânt eu dal i newid y risgiau a wynebir ganddo wrth ymgymryd â'i weithgareddau.

Yn ôl yr hyn a ganiateir gan FRS 13, mae dyledwyr a chredydwyr sy'n aeddfedu neu'n dod yn daladwy o fewn 12 mis i ddyddiad y fantolen wedi'u hepgor o'r proffil cyfredol.

### Risg arian cyfred

Caiff gofynion refeniw net ac adnoddau cyfalaf yr Archwilydd Cyffredinol eu hariannu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Felly, ni chaiff ei swydd ei hamlygu i risgiau hylifedd sylweddol.

### Risg cyfradd llog

Ni chaiff asedau a rhwymedigaethau ariannol yr Archwilydd Cyffredinol eu hamlygu i risg cyfradd llog.

### Risg arian cyfred

Bach iawn yw amlygiad yr Archwilydd Cyffredinol i risg arian cyfred.

### Gwerthoedd teg

Nid oes unrhyw wahaniaeth rhwng gwerthoedd llyfr a gwerthoedd teg asedau a rhwymedigaethau ariannol yr Archwilydd Cyffredinol ar 31 Mawrth 2004.